Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG
Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
Welsh Ambulance Services
University NHS Trust

# EIN HAMCANION LLESIANT: CANOLBWYNTIO AR Y DYFODOL

Ein cyfraniad at Ddeddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (WBFGA)

## Beth yw hyn?

Mae Ddeddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol wedi bod yn berthnasol i Wasanaeth Ambiwlans Cymru ers Mehefin 30, 2024.




Nod y Ddeddf yw sicrhau bod cyrff cyhoeddus ledled Cymru yn cydweithio i sicrhau bod Cymru'n datblygu'n wlad lewyrchus, gyfoethog yn ddiwylliannol, sy'n fywiog yn economaidd, yn iach ac wedi'i haddysgu'n dda, lle gall pobl ffynnu yn y gwaith, ac yn y cartref.

Er ein bod wedi bod yn gweithio yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ers 2015, nawr ein bod yn dod yn ffurfiol o dan y Ddeddf, mae'n ofynnol i ni nodi sut y byddwn yn chwarae ein rhan i gyfrannu at wireddu'r nodau llesiant hyn.

**Yn dilyn adborth y cyhoedd, rydym wedi gallu cwblhau ein hamcanion yr ydym yn falch o'u nodi yn y ddogfen hon.**

## Sut byddwn ni'n gwneud hyn i gyd?

Rydym yn glir bod yn rhaid i'n hamcanion llesiant fod yn fwy na geiriau. **Rydym am wneud newid gwirioneddol ac ystyrlon a gwneud cyfraniad llawn at Gymru iachach, fwy bywiog a llwyddiannus.**

Mae ein hamcanion llesiant ar gyfer y tymor hir. Ni ellir eu cyflawni dros nos, a bydd eu ffocws yn datblygu dros amser. Dyma pam rydym yn meddwl y dylen nhw fod yn fwriadol eang – er mwyn sicrhau ein bod ni'n parhau i ganolbwyntio ar bethau a fydd wir yn gwella bywyd yng Nghymru am flynyddoedd lawer i ddod. Cânt eu defnyddio fel egwyddorion arweiniol ar gyfer datblygu ein strategaeth a'n cynlluniau fel y gallwn fesur cynnydd diriaethol a gweld newid gwirioneddol.

Mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn cynnwys pum ffordd o weithio a fydd yn ein helpu i gyflawni ein hamcanion, a'r nodau llesiant ehangach. Y ffyrdd hyn o weithio bydd sylfaen ein hymagwedd, sef Cydweithio, Integreiddio, Cymryd rhan, Tymor Hir, ac Atal.

## Ein Hamcanion Llesiant

### Amcan Un: **Cyflogwr sy'n Gymdeithasol Gyfrifol a Chynhwysol**



**Byddwn yn:**

- cefnogi cymunedau a'r economi drwy ddarparu cyfleoedd cyflogaeth a gwirfoddoli hirdymor i bobl sy'n byw ledled Cymru, ar bob adeg yn eu gyrfa ac mewn amrywiaeth eang o rolau.
- parhau i ddatblygu gweithlu amrywiol sydd wedi'i hyfforddi'n arbenigol fel bod ein cymunedau'n teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u cynnwys yn dda yn ein sefydliad.
- bod yn gyflogwr cynhwysol, gan adlewyrchu'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu ledled Cymru.
- gwerthfawrogi ein partneriaethau ag undebau llafur a gweithio mewn partneriaeth i greu sefydliad sy'n groesawgar, yn deg a lle gall pobl ffynnu.

### Amcan Dau: **Sefydliad Arloesol a Chynaliadwy**



**Byddwn yn:**

- bod ar flaen y gad ym maes gofal clinigol drwy harneisio technoleg mewn ffordd sy'n lleihau ein heffaith amgylcheddol ac sy'n gwella diogelwch a phrofiad cleifion.
- gwneud y gorau o'n Statws Ymddiriedolaeth Brifysgol i weithio gyda phartneriaid masnachol ac academaidd i chwilio am ddatrysiadau yfory, heddiw.
- parhau i leihau ein heffaith amgylcheddol, gan ddefnyddio datrysiadau mwy cynaliadwy a charbon niwtral yn ein hystâd, ein fflyd ac arferion gwaith, i sicrhau ein bod yn cyfrannu at Gymru wyrddach, lanach ac iachach.
- rheoli ein hasedau ariannol a ffisegol yn dda, fel y gallwn ddarparu gwasanaethau hyfyw ar gyfer y tymor hir ac fel y gall cymunedau ddibynnu arnom i fod yno pan fyddant ein hangen.

### Amcan Tri: **Darparwr Gofal Rhagweithiol, Hygyrch a Theg**



**Byddwn yn:**

- darparu gwasanaethau brys a gofal mewn argyfwng sy'n diwallu anghenion pobl Cymru, lle bynnag a phryd bynnag y mae eu hangen, gan wella canlyniadau a sicrhau y gall pobl fyw bywydau iachach am gyfnod hwy.
- gwella ein gwasanaethau a'n perfformiad yn barhaus, fel bod gan bobl Cymru ymddiriedaeth a hyder yn ein gallu i fod yno pan fyddant ein hangen fwyaf.
- cyd-gynhyrchu modelau gofal ar y cyd â'n cymunedau a'n partneriaid sy'n parhau i ddiwallu anghenion esblygol pobl Cymru ac yn adlewyrchu'r hyn sy'n bwysig iddynt.
- helpu i wneud Cymru yn genedl o achubwyr bywyd trwy gefnogi addysg iechyd a hyrwyddo sgiliau CPR gwylwyr, gan wella gwydnwch cymunedol.
- cofleidio ein rôl ddiwylliannol fel gwasanaeth ambiwlans cenedlaethol Cymru, gan hyrwyddo ein hiaith a'n treftadaeth wrth ddatblygu ffyrdd arloesol newydd o ddarparu gofal sy'n gosod Cymru fel arweinydd ar y llwyfan cenedlaethol a rhyngwladol.

Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
Welsh Ambulance Services University NHS Trust

# OUR WELLBEING OBJECTIVES: FOCUSED ON THE FUTURE

Our contribution to the Wellbeing of Future Generations Act (WBFGA)

## What's this about?

The Wellbeing of Future Generations Act has applied to the Welsh Ambulance Service since June 30, 2024.




The aim of the Act is to ensure that public bodies across Wales are working together to ensure that Wales develops as a prosperous, culturally rich, economically vibrant, healthy and well educated country, where people can thrive both at work, and at home.

While we've been working in the spirit of the WBFGA since 2015, now that we come formally under the Act, we are required to set out how we will play our part in contributing to these wellbeing goals becoming a reality.

**Following public feedback, we have been able to finalise our objectives which we are pleased to set out in this document.**

## How will we do all this?

We're clear that our wellbeing objectives must be more than just words. **We want to make real and meaningful change and make a full contribution to a healthier, more vibrant and successful Wales.**

Our wellbeing objectives are for the long-term. They can't be achieved overnight, and their focus will develop over time. This is why we think they should be deliberately broad – to ensure we retain focus on things that will really improve life in Wales for many years to come. They will be used as guiding principles around which we develop our strategy and plans so that we can measure tangible progress and see real change.

The sustainable development principle outlined in the Wellbeing of Future Generations Act captures five ways of working that will help us deliver on our objectives, and the wider wellbeing goals. These ways of working will form the bedrock of our approach and are Collaboration, Integration, Involvement, Long-term, and Prevention.

## Our Wellbeing Objectives

### Objective 1: A Socially Responsible and Inclusive Employer



**We will:**

- support communities and the economy by providing long-term employment and volunteering opportunities for people living across Wales, at all points in their career and in a wide variety of roles.
- continue to develop a diverse and expertly trained workforce so that our communities feel well supported and engaged in our organisation.
- be an inclusive employer, reflecting the communities we serve across Wales.
- value our partnerships with trade unions and work in partnership to create an organisation that is welcoming, fair and where people can thrive.

### Objective 2: An Innovative and Sustainable Organisation



**We will:**

- be at the forefront of clinical care by harnessing technology in a way that minimises our environmental impact and improves patient safety and experience.
- make the most of our University Trust Status (UTS) to work with commercial and academic partners to look for tomorrow's solutions, today.
- continue to reduce our environmental impact, using more sustainable and carbon neutral solutions in our estate, fleet and working practices, to ensure we contribute to a greener, cleaner and healthier Wales.
- manage our financial and physical assets well, so that we can provide viable services for the long term and so communities can rely on us to be there when they need us.

### Objective 3: A Pro-active, Accessible and Equitable Care Provider



**We will:**

- provide urgent and emergency care services that meet the needs of the people of Wales, wherever and whenever they are needed, improving outcomes and ensuring people can live healthier lives for longer.
- continually improve our services and performance, so the people of Wales have trust and confidence in our ability to be there when they need us most.
- co-produce with our communities and partners models of care that continue to meet the evolving needs of people in Wales and reflect what matters to them.
- help make Wales a nation of lifesavers by supporting health education and promoting bystander CPR skills, improving community resilience.
- embrace our cultural role as Wales' national ambulance service, championing our language and heritage while develop pioneering new ways of delivering care which position Wales as a leader on the national and international stage.